Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Natur a Ni
Nature and Us

# Natur a Ni: Adborth Cynulliad y Dinasyddion ar ddatganiadau gweledigaeth a pharhau i gymryd rhan

**Awduron: Y Ganolfan Ymchwil Ymgynghori (Centre for Deliberative Research)**

**Paratowyd ar gyfer: Cyfoeth Naturiol Cymru**

**Dyddiad: Gorffennaf, 2023**

# Cynnwys


1. CYFLWYNIAD .......... 1

1.1 Dull .......... 1

2. Y DATGANIADAU GWELEDIGAETH TERFYNOL .......... 5

2.1 Dengys canlyniadau'r arolwg gytundeb cyffredinol .......... 5

2.2 Adborth cyffredinol ar y datganiadau gweledigaeth .......... 5

2.3 Adborth yn ymwneud â datganiadau gweledigaeth unigol .......... 6

3. GWEITHREDU .......... 10

3.1 Cynulliad y Dinasyddion – y profiad a'r effaith .......... 10

3.2 Gweithredu i warchod ac adfer yr amgylchedd naturiol .......... 12

3.3 Angen allweddol am wybodaeth .......... 16

4. CASGLIAD .......... 17

ATODIAD 1: Y SAMPL .......... 18

ATODIAD 2: YR AROLWG .......... 20

ATODIAD 3: ANGHENION CYMORTH A NODWYD GAN Y CYFRANOGWYR .......... 29

# 1. Cyflwyniad

Fel rhan o Gynulliad Dinasyddion Natur a Ni, cafodd 40 o bobl ledled Cymru eu dwyn ynghyd er mwyn cynorthwyo i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer dyfodol yr amgylchedd naturiol yng Nghymru. Cafodd y Cynulliad ei gynnal gan y Ganolfan Ymchwil Ymgynghori (CDR) yn y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen), a chafodd ei gomisiynu gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Ar ôl cynnal Cynulliad y Dinasyddion, lluniodd NatCen chwech o ddatganiadau gweledigaeth a oedd wedi'u seilio ar ddadansoddiad o flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol – sef blaenoriaethau a bennwyd gan y cyfranogwyr yn ystod trafodaethau'r Cynulliad. Yna, aeth CNC ati i gomisiynu NatCen i gynnal cyfres o drafodaethau ar-lein dilynol gydag aelodau'r Cynulliad, er mwyn iddynt gael cyfle i adolygu'r datganiadau hyn, a chytuno arnynt. Roedd tri amcan yn perthyn i'r trafodaethau ar-lein hyn, sef:

1) Cadarnhau'r datganiadau gweledigaeth ar ôl cael adborth gan aelodau'r Cynulliad, er mwyn sicrhau bod y datganiadau'n adlewyrchu prif themâu Cynulliad y Dinasyddion.
2) Deall barn aelodau'r Cynulliad ynglŷn â chymryd camau i warchod ac adfer natur. Yn arbennig, pennu'r rhwystrau a nodi'r cymorth y gall fod ei angen i weithredu.
3) Datblygu deunyddiau cyfathrebu wedi'u seilio ar gymeriadau proses Cynulliad y Dinasyddion er mwyn cyfleu'r weledigaeth i gynulleidfa ehangach.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r themâu allweddol a ddeilliodd o drafodaethau gyda'r cyfranogwyr ynglŷn â'r datganiadau a chymryd camau. Cyflwynwyd y deunyddiau cyfathrebu ar wahân ar ffurf darluniau graffig a baratowyd gan luniwr nodiadau gweledol a fu'n arsylwi ar y rhan hon o'r drafodaeth.

## 1.1 Dull

Gwahoddwyd pob un o'r 40 cyfranogwr gwreiddiol i gymryd rhan yn un o'r trafodaethau grŵp (cynigiwyd gwahanol amseroedd yn ystod y dydd dros gyfnod o 14 diwrnod). Anfonwyd sawl nodyn atgoffa at y cyfranogwyr er mwyn sicrhau bod pawb wedi gweld y cyfle. Mynychodd 19 o aelodau'r Cynulliad bedair sesiwn wahanol, gyda phedwar neu bump o gyfranogwyr yn mynychu pob sesiwn. Cafodd y cyfranogwyr dalebau siopa a oedd yn werth £40 fel ffordd o ddiolch iddynt am gymryd rhan yn y trafodaethau grŵp.

Roedd y sampl terfynol yn adlewyrchu demograffeg allweddol y Cynulliad gwreiddiol – ceir manylion llawn yn Atodiad 1. Roedd y sampl yn cynnwys pobl o wahanol oedran, cafwyd rhaniad cyfartal o ran rhywedd ac roedd yn cynnwys cymysgedd o gyfranogwyr trefol a gwledig. Fe wnaeth pedwar o'r cyfranogwyr hunan-nodi bod ganddynt anabledd ac fe wnaeth tri o'r cyfranogwyr hunan-nodi eu bod yn dod o gefndiroedd lleiafrifol ethnig.

Rhannwyd y chwe datganiad gweledigaeth drafft (isod) gyda'r cyfranogwyr cyn cynnal y trafodaethau grŵp, fel rhan o arolwg ar-lein (gellir gweld yr arolwg llawn yn Atodiad 2). Datblygwyd y datganiadau hyn gan NatCen ar ôl dadansoddi'r blaenoriaethau a bennwyd gan y cyfranogwyr yn ystod Cynulliad y Dinasyddion, sef blaenoriaethau ar gyfer dyfodol natur yng Nghymru (gellir gweld yr adroddiad llawn ar [Natur a Ni]). Mae'r adroddiad canfyddiadau'n nodi proses ddadansoddi NatCen ar gyfer llunio'r datganiadau hyn, a oedd yn cynnwys dadansoddiad thematig o'r data a ddeilliodd o drafodaethau'r cyfranogwyr yn ystod y Cynulliad. Trwy gyfrwng y gwaith dadansoddi hwn, pennodd NatCen chwe thema gyffredinol a oedd yn adlewyrchu blaenoriaethau'r cyfranogwyr ar gyfer gweledigaeth yn ymwneud â dyfodol yr amgylchedd naturiol yng Nghymru. Dyma'r themâu: gwarchod ac adfer natur, polisi a gwneud penderfyniadau, gwybodaeth a gweithredu, iechyd, systemau a seilwaith, a rheoli tir.

Ar ôl pennu'r themâu hyn, lluniodd NatCen y chwe datganiad gweledigaeth isod (un ar gyfer pob thema). Wrth lunio'r datganiadau hyn, defnyddiwyd yr ymatebion a gyflwynodd y cyfranogwyr i gwestiynau craidd y Cynulliad ynglŷn â'r pethau y dymunant eu gweld yn cael eu newid, y manteision a fyddai'r deillio o'r newid hwn, a'r camau nesaf ar gyfer cyflawni'r newid.

**Yn 2050, pan fydd cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd…**

1. **Bydd pobl a'r llywodraeth yn ymrwymo ar y cyd i warchod yr amgylchedd naturiol.**

*Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i'r llywodraeth gyfathrebu ei chynllun i warchod ac adfer yr amgylchedd naturiol. Bydd hwn yn egluro sut y gall pobl a'r llywodraeth helpu i amddiffyn anifeiliaid a phlanhigion sydd mewn perygl ac adfer ble maent yn byw.*

2. **Bydd arweinyddiad clir gan Lywodraeth Cymru yn helpu'r cyhoedd i gymryd mwy o ran mewn penderfyniadau am natur.**

*Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i bob lefel o lywodraeth gynnwys pobl a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a thystiolaeth glir yn hytrach na buddiannau pleidiau gwleidyddol. Bydd hyn yn rhoi mwy o rym i'r cyhoedd ac yn sicrhau bod y llywodraeth yn mabwysiadu'r ymagwedd orau at natur.*

3. **Bydd rhannu gwybodaeth yn helpu pobl i ddeall sut mae natur yn effeithio ar eu bywydau, a'r camau y gallant eu cymryd i helpu i ddiogelu ac adfer yr amgylchedd naturiol.**

*Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, bydd gwybodaeth glir a hygyrch yn amlygu'r gwahanol ffyrdd y gall dinasyddion ymateb. Bydd hyn yn helpu dinasyddion i wybod pa gamau y gallant eu cymryd i helpu natur a chymdeithas i ffynnu.*

4. **Bydd mynediad eang i fyd natur yn helpu pobl ledled Cymru i fyw bywydau hapus ac iach.**

*Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i gymdeithas Cymru fod yn fwy cyfartal ac mae angen gwneud ei hamgylchedd yn llai llygredig fel bod pawb yn gallu elwa ar fyd natur. Bydd hyn yn gwella iechyd meddwl a chorfforol pobl yng Nghymru.*

5. **Bydd opsiynau gwyrddach ar gyfer trafnidiaeth ac ynni yn galluogi mwy o bobl i wneud dewisiadau ecogyfeillgar yn eu bywydau bob dydd.**

*Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus, technolegau ynni adnewyddadwy a rheoli gwastraff yn ogystal â lleihau effaith anghydraddoldebau rhwng pobl a'u cymunedau. Bydd hyn yn rhoi mynediad mwy cyfartal i ddewisiadau ffordd o fyw gwyrddach i bobl ledled Cymru.*

6. **Bydd rheoli tir yn gynaliadwy yn helpu cymunedau i brynu bwyd lleol a theimlo eu bod yn perthyn i dir Cymru.**

*Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i bob lefel o lywodraeth helpu i wneud ffermio'n fwy cynaliadwy a bwyd lleol yn rhatach. Bydd hyn yn helpu pobl i brynu mwy o fwyd lleol a chynaliadwy ac adfer byd natur.*

Gofynnodd yr arolwg i ba raddau oedd y cyfranogwyr yn cytuno bod y datganiadau hyn yn cyfleu'r blaenoriaethau a drafodwyd yn ystod y Cynulliad. Hefyd, gofynnodd yr arolwg i'r cyfranogwyr pa mor barod oeddynt i gymryd camau i warchod natur, a beth oedd y rhwystrau a oedd yn eu hatal rhag gweithredu. Yna, yn y trafodaethau grŵp, rhoddwyd cyfle i'r cyfranogwyr drafod eu hymatebion i'r arolwg yn fwy manwl er mwyn deall pam oedd y cyfranogwyr yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau, ac awgrymu sut dylid aralleirio'r datganiadau pan fo angen. Hefyd, rhoddwyd rhagor o amser i'r cyfranogwyr drafod eu hawydd i gymryd camau i warchod ac adfer natur, ynghyd â thrafod y rhwystrau a allai eu hwynebu.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canlyniadau a ddeilliodd o'r arolwg a'r grwpiau trafod. Ym mhennod dau, nodir myfyrdodau'r cyfranogwyr ynglŷn â'r datganiadau gweledigaeth a hefyd nodir mân newidiadau a ddeilliodd o'u hawgrymiadau. Ym mhennod tri, ceir dadansoddiad o'r camau y bwriada'r cyfranogwyr eu cymryd i warchod ac adfer natur, a nodir y prif rwystrau sy'n eu hatal rhag gweithredu.

## 1.2 Canfyddiadau allweddol

Cytunodd y cyfranogwyr fod y chwe datganiad gweledigaeth yn cyfleu'r trafodaethau a ddeilliodd o Gynulliad y Dinasyddion. Fodd bynnag, tynnodd yr adborth sylw at rai mannau lle gellid bod wedi geirio'r datganiadau'n gliriach. Aeth NatCen ati i adolygu'r adborth hwn gyda CNC, gan gytuno y dylid cyflwyno mân newidiadau mewn tri lle yn y datganiadau er mwyn sicrhau y caiff ystyr y datganiadau ei gyfleu'n glir i gynulleidfa ehangach:

- Ychwanegwyd y geiriau 'buddiannau breintiedig eraill' at ddatganiad gweledigaeth rhif dau, er mwyn cyfleu bod aelodau'r Cynulliad o'r farn na chaiff yr holl benderfyniadau ynghylch natur eu hysgogi gan fuddiannau gwleidyddol neu ariannol o bob math. Roedd y datganiad drafft yn canolbwyntio ar fuddiannau gwleidyddol yn unig.
- Yn natganiad gweledigaeth rhif pedwar, newidiwyd 'mae angen i gymdeithas Cymru fod yn fwy cyfartal' a defnyddiwyd 'mae angen mwy o fynediad cyfartal i fyd natur ar gymdeithas Cymru', er mwyn cyfleu'n well pa mor bwysig yw lleihau effeithiau anghydraddoldebau iechyd, ac osgoi unrhyw ddryswch ynglŷn ag ystyr 'cyfartal' yn y datganiad.
- Yn natganiad gweledigaeth rhif chwech, defnyddiwyd 'fforddiadwy' yn lle 'rhatach' er mwyn osgoi unrhyw gynodiadau posibl â ffermio dwys a ddaw law yn llaw â bwyd rhatach.

Wrth drafod gweithredu, roedd adborth y cyfranogwyr yn awgrymu bod cymryd rhan yng Nghynulliad y Dinasyddion wedi rhoi rhagor o wybodaeth iddynt ynglŷn â'r heriau sy'n wynebu natur, gan eu hysgogi i gymryd camau i warchod ac adfer amgylchedd naturiol Cymru.

Roedd y mwyafrif o'r cyfranogwyr o'r farn y gallent gymryd nifer o wahanol gamau dros y misoedd nesaf i helpu i warchod ac adfer natur. Roedd y camau hyn yn cynnwys treulio mwy o amser ynghanol byd natur, codi ymwybyddiaeth o natur ymhlith eu cyfeillion a'u teuluoedd, a gwirfoddoli.


Y prif rwystrau a oedd yn eu hatal rhag gweithredu oedd rhesymau ariannol neu ddiffyg amser. Hefyd, roedd diffyg ymwybyddiaeth o gyfleoedd yn rhwystr arall. Felly, drwy gydol y trafodaethau, pwysleisiodd y cyfranogwyr pa mor bwysig yw ymgyrchoedd 'codi ymwybyddiaeth' a anelir at boblogaeth Cymru er mwyn annog rhagor o ddinasyddion i weithredu.

# 2. Y datganiadau gweledigaeth terfynol

Gofynnodd yr arolwg a gynhaliwyd cyn y drafodaeth i ba raddau oedd y cyfranogwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y datganiadau drafft yn cyfleu'r blaenoriaethau a bennwyd gan aelodau'r Cynulliad yn y Cynulliad Dinasyddion cyntaf. Yna, yn ystod y grŵp ar-lein, rhoddwyd cyfle i'r cyfranogwyr adolygu'r datganiadau'n fwy manwl ac awgrymu newidiadau. Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r canfyddiadau a ddeilliodd o'r arolwg a'r grwpiau trafod.

## 2.1 Dengys canlyniadau'r arolwg gytundeb cyffredinol

Fel y gwelir yn ffigur 1 isod, roedd pob un o'r cyfranogwyr ac eithrio un yn cytuno i ryw raddau bod y datganiadau gweledigaeth yn cyfleu'r blaenoriaethau a bennwyd gan y cyfranogwyr yn ystod y Cynulliad; ac roedd mwyafrif o 14 yn cytuno'n gryf. Dewisodd un cyfranogwr yr opsiwn 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno', ond ni nodwyd rheswm clir yn y blwch testun rhydd i esbonio'r hyn a oedd wrth wraidd ei ymateb.




**Ffigur 1:** I ba raddau oedd y cyfranogwyr yn cytuno â'r datganiadau gweledigaeth.

## 2.2 Adborth cyffredinol ar y datganiadau gweledigaeth

Deilliodd y tair thema gyffredinol a ganlyn o'r trafodaethau grŵp a gynhaliwyd ynglŷn â'r datganiadau.

**Roedd y cyfranogwyr yn cytuno bod y datganiadau gweledigaeth yn adlewyrchu'r blaenoriaethau allweddol a ddeilliodd o drafodaethau'r Cynulliad.**

Y farn oedd bod y datganiadau gweledigaeth yn cyfleu'r meysydd blaenoriaeth allweddol a bennwyd gan y Cynulliad. Ys dywedodd un cyfranogwr, roeddynt "yn gyfaddawd rhwng crynoder a manylder".

Tueddwyd i ystyried bod y ddau ddatganiad gweledigaeth cyntaf yn ddwy ochr o'r un geiniog. Yn ôl un awgrym, efallai y byddai'n ddefnyddiol newid eu trefn er mwyn dangos yn gliriach y dylai Llywodraeth Cymru gymryd yr awenau o ran troi'r weledigaeth yn realiti, cyn i bobl a'r Llywodraeth ymrwymo ar y cyd i warchod natur.

**Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod y datganiadau gweledigaeth yn sylfaen dda ar gyfer ystyried y camau nesaf sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu.**

Gan fod y cyfranogwyr yn cytuno'n gyffredinol ynglŷn â'r datganiadau eu hunain, trafodwyd llawer ar y modd y gellid troi gwahanol elfennau'r weledigaeth yn realiti. Ys dywedodd un cyfranogwr, roedd y grwpiau'n tueddu i feddwl nad y datganiadau eu hunain "oedd y lle iawn i ddweud beth yn union sy'n mynd i newid, ond yr hyn sydd ei angen hefyd". I grynhoi, mae'r datganiadau gweledigaeth yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer ystyried camau ymarferol i warchod natur.

**Er mwyn cyfathrebu'r datganiadau gweledigaeth yn ehangach ymhlith y cyhoedd, dylid eu cysylltu â chamau nesaf gwirioneddol.**

Er mwyn i Gynulliad y Dinasyddion allu gwneud gwahaniaeth, roedd y pedwar grŵp yn cytuno'n gyffredinol y byddai angen cyfathrebu'n well gyda'r cyhoedd. Felly, bydd angen cyflwyno'r datganiadau gweledigaeth mewn ffordd wirioneddol i bobl na wnaethant fynychu'r Cynulliad. Pwysleisiodd nifer o'r cyfranogwyr y byddai'n bwysig sicrhau bod unrhyw waith mewn perthynas â'r datganiadau gweledigaeth yn cwmpasu Cymru gyfan, yn hytrach na chanolbwyntio ar ganolfannau trefol yn unig.

Ar y cyfan, mae'r adborth yn awgrymu bod datganiadau un i dri (yn ymwneud ag ymrwymiad ar y cyd rhwng pobl a'r llywodraeth, arweinyddiad clir gan Lywodraeth Cymru, a rhannu gwybodaeth) yn llai penodol na datganiadau pedwar i chwech (yn ymwneud ag iechyd, systemau a seilwaith, a rheoli tir), ac roedd rhai o'r cyfranogwyr yn cael trafferth i weld beth allent ei olygu yn y camau ymarferol nesaf. Felly, rhaid ystyried y ffordd orau o gyfathrebu'r tri datganiad hyn i gynulleidfa ehangach er mwyn sicrhau y cânt eu cysylltu â gweithredu gwirioneddol.

## 2.3 Adborth yn ymwneud â datganiadau gweledigaeth unigol

Mae'r adran hon yn crynhoi'r adborth a gafwyd mewn perthynas â phob un o'r chwe datganiad gweledigaeth. Cyflwynwyd mân newidiadau i dri o'r datganiadau ar sail adborth y cyfranogwyr, er mwyn sicrhau bod y negeseuon yn glir. Nid yw'r newidiadau hyn yn dangos anghytundeb â'r drafft cyntaf. Fe'u hamlygir mewn melyn:

**Datganiad gweledigaeth 1: Bydd pobl a'r llywodraeth yn ymrwymo ar y cyd i warchod yr amgylchedd naturiol.**

*Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i'r llywodraeth gyfathrebu ei chynllun i warchod ac adfer yr amgylchedd naturiol. Bydd hwn yn egluro sut y gall pobl a'r llywodraeth helpu i amddiffyn anifeiliaid a phlanhigion sydd mewn perygl ac adfer ble maent yn byw.*

Roedd pob grŵp yn cytuno â'r datganiad hwn ac ni awgrymwyd unrhyw newidiadau.

Ar draws yr holl grwpiau, cytunodd y cyfranogwyr fod Cynulliad y Dinasyddion wedi pennu rôl ar gyfer pobl a'r llywodraeth o ran gwarchod ac adfer yr amgylchedd naturiol. Canolbwyntiodd trafodaethau'r grwpiau dilynol hyn ar sut dylid datblygu cynllun a thrafod cyfaddawdau. Er enghraifft, soniodd un grŵp am enghraifft o gyfaddawd posibl trwy holi sut byddai gwarchod anifeiliaid mewn perygl, yn cynnwys ysglyfaethwyr a rhywogaethau yr ystyrir yn aml eu bod yn blâu (fel nadroedd, llygod neu lygod mawr), yn effeithio ar ddiogelwch pobl, a sut gellid datrys hyn.

**Datganiad gweledigaeth 2: Bydd arweinyddiad clir gan Lywodraeth Cymru yn helpu'r cyhoedd i gymryd mwy o ran mewn penderfyniadau am natur.**

*Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i bob lefel o lywodraeth gynnwys pobl a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a thystiolaeth glir yn hytrach na buddiannau pleidiau gwleidyddol a buddiannau breintiedig eraill. Bydd hyn yn rhoi mwy o rym i'r cyhoedd ac yn sicrhau bod y llywodraeth yn mabwysiadu'r ymagwedd orau at natur.*

Roedd pob grŵp yn cytuno â'r datganiad hwn, ond awgrymodd un grŵp y dylid ychwanegu 'buddiannau breintiedig eraill'. Derbyniwyd yr awgrym hwn gan NatCen a CNC.

Awgrymodd rhai o'r cyfranogwyr y dylid ehangu'r datganiad er mwyn cynnwys "buddiannau breintiedig uchel eu cloch". Yn ystod trafodaethau cychwynnol y Cynulliad, canolbwyntiodd y cyfranogwyr ar effaith pleidiau gwleidyddol, ond canolbwyntiwyd hefyd ar heriau ehangach sy'n perthyn i brosesau penderfynu democrataidd, megis lobïo o du busnesau neu Sefydliadau Anllywodraethol. Trafododd NatCen yr awgrym hwn gyda CNC. Cytunwyd y byddai ychwanegu 'buddiannau breintiedig eraill' yn cyfleu'r heriau ehangach sy'n perthyn i brosesau penderfynu democrataidd y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad canfyddiadau[1]. Felly, cafodd y datganiad ei newid.

Roedd y cyfranogwyr o'r farn ei bod yn briodol canolbwyntio ar bwysigrwydd tystiolaeth ynghyd â chanolbwyntio ar symud y tu hwnt i fuddiannau pleidiau gwleidyddol, a bod hyn yn elfen hanfodol o'r datganiad gweledigaeth hwn. Er mwyn gallu cynnwys pobl, y farn oedd bod yn rhaid rhannu gwybodaeth ddibynadwy a chredadwy, gan alluogi pobl i wneud

[1] Gweler adroddiad canfyddiadau'r Cynulliad, tudalen 19

penderfyniadau ar lefel leol. Roedd rhai o'r cyfranogwyr o'r farn y byddai angen i Lywodraeth Cymru ddangos arweinyddiad cryf, er mwyn i benderfyniadau allu esgor ar ganlyniadau i natur. Defnyddiodd un cyfranogwr y term "tipyn o frath" wrth ddweud bod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau y caiff ei phenderfyniadau eu rhoi ar waith.

**Datganiad gweledigaeth 3: Bydd rhannu gwybodaeth yn helpu pobl i ddeall sut mae natur yn effeithio ar eu bywydau, a'r camau y gallant eu cymryd i helpu i ddiogelu ac adfer yr amgylchedd naturiol.**

*Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, bydd gwybodaeth glir a hygyrch yn amlygu'r gwahanol ffyrdd y gall dinasyddion ymateb. Bydd hyn yn helpu dinasyddion i wybod pa gamau y gallant eu cymryd i helpu natur a chymdeithas i ffynnu.*

Roedd pob grŵp yn cytuno â'r datganiad hwn ac ni awgrymwyd unrhyw newidiadau.

Cadarnhaodd cyfranogwyr trwy'r pedwar grŵp fod gwybodaeth glir y gellir gweithredu ar ei sail yn hollbwysig o ran galluogi pobl i wneud eu rhan i warchod ac adfer natur. Drachefn, tynnwyd sylw at y rôl bwysig sydd gan dystiolaeth, a defnyddiwyd y GIG fel enghraifft o faes lle credai pobl bod tystiolaeth berthnasol yn cael ei chynnwys yn rheolaidd wrth gyfathrebu penderfyniadau a chyngor.

Gan awgrymu "nad yw rhai pobl yn mynd ati i chwilio am yr wybodaeth", galwodd y cyfranogwyr am ffyrdd effeithiol o ddefnyddio gwahanol sianeli cyfathrebu (e.e. y farn oedd na châi'r cyfryngau cymdeithasol eu defnyddio'n ddigonol), a dywedwyd bod angen "cael cydbwysedd iawn, yn cynnwys rhannu negeseuon cadarnhaol ynglŷn â'r pethau sy'n gweithio" yn ogystal â negeseuon sy'n tynnu sylw at yr her.

**Datganiad gweledigaeth 4: Bydd mynediad eang i fyd natur yn helpu pobl ledled Cymru i fyw bywydau hapus ac iach.**

*Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen mwy o fynediad cyfartal i fyd natur ar gymdeithas Cymru, ac mae angen gwneud ei hamgylchedd yn llai llygredig fel bod pawb yn gallu elwa ar fyd natur. Bydd hyn yn gwella iechyd meddwl a chorfforol pobl yng Nghymru.*

Roedd pob grŵp yn cytuno â'r datganiad hwn, ond roedd rhai cyfranogwyr yn ansicr beth yn union oedd ystyr 'cyfartal'. Er mwyn cyfleu'r berthynas rhwng anghydraddoldebau iechyd, mynediad at natur ac effaith llygredd, cytunodd NatCen a CNC y dylid newid y datganiad hwn a defnyddio 'mwy o fynediad cyfartal i fyd natur', er mwyn sicrhau bod modd cyfleu'n glir y syniad sydd wrth wraidd 'mynediad cyfartal at natur'.

Roedd pob grŵp yn cytuno mai un thema allweddol a ddeilliodd o drafodaethau'r Cynulliad oedd y rôl sydd gan fynediad at natur o ran ategu iechyd y meddwl a'r corff.

**Datganiad gweledigaeth 5: Bydd opsiynau gwyrddach ar gyfer trafnidiaeth ac ynni yn galluogi mwy o bobl i wneud dewisiadau ecogyfeillgar yn eu bywydau bob dydd.**

*Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus, technolegau ynni adnewyddadwy a rheoli gwastraff yn ogystal â lleihau effaith anghydraddoldebau rhwng pobl a'u cymunedau. Bydd hyn yn rhoi mynediad mwy cyfartal i ddewisiadau ffordd o fyw gwyrddach i bobl ledled Cymru.*

Roedd pob grŵp yn cytuno â'r datganiad hwn ac ni awgrymwyd unrhyw newidiadau.

Y farn gyffredinol oedd bod y datganiad hwn yn adlewyrchu trafodaethau'r Cynulliad mewn modd clir, gwirioneddol ac addas. Canolbwyntiodd y sylwadau ar yr anawsterau wrth ddewis technolegau addas, ar lefel y llywodraeth ac ar lefel unigolion, a pha mor bwysig yw ystyried ystod o atebion. Er enghraifft, roedd un cyfranogwr yn pryderu y gallai troi at ddefnyddio cerbydau trydan leihau gwaith ymchwil pellach yn ymwneud â hydrogen gwyrdd, er enghraifft, a phwysleisiwyd pa mor bwysig yw hi i Lywodraeth Cymru wneud y dewisiadau iawn ar wahanol adegau.

**Datganiad gweledigaeth 6: Bydd rheoli tir yn gynaliadwy yn helpu cymunedau i brynu bwyd lleol a theimlo eu bod yn perthyn i dir Cymru.**

*Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i bob lefel o lywodraeth helpu i wneud ffermio'n fwy cynaliadwy a bwyd lleol yn fforddiadwy. Bydd hyn yn helpu pobl i brynu mwy o fwyd lleol a chynaliadwy ac adfer byd natur.*

Roedd pob grŵp yn cytuno â'r datganiad hwn, ond roedd un grŵp yn amheus o'r term 'rhatach'. Felly, ar ôl trafod y mater gyda CNC, defnyddiwyd y gair 'fforddiadwy' yn lle 'rhatach' er mwyn cyfleu'n well sut gellir sicrhau bod bwyd lleol yn ariannol gynaliadwy.


Ar y cyfan, trafodwyd y datganiad hwn i raddau llai na'r datganiadau eraill. Fodd bynnag, aeth un grŵp ati i feirniadu'n llym y modd y cyfeiriwyd at wneud bwyd lleol yn rhatach. Roedd un grŵp un cwestiynu a oedd modd gwneud hyn wrth barhau i warchod ac adfer natur. Yn ôl y cyfranogwyr, "os oes modd gwneud bwyd lleol yn rhatach, byddai ffermwyr yn gwneud hynny eisoes", a dywedwyd mai'r "unig ffordd o gyflawni hyn yw trwy ddefnyddio dulliau ffermio dwysach, llai ecogyfeillgar". Ar ôl adolygu'r sylw hwn gyda CNC, penderfynwyd bod 'fforddiadwy' yn cyfleu'n well y syniad y dylid ehangu mynediad at gynnyrch lleol er mwyn adfer natur, gan osgoi cysylltiadau camarweiniol posibl â ffermio dwys, sef rhywbeth a allai ddigwydd pe defnyddid y gair 'rhatach'.

# 3. Gweithredu

Gan adeiladu ar yr ymatebion a gafwyd i’r arolwg cyn y sesiwn, yn ystod ail ran y trafodaethau aethpwyd ati i archwilio beth oedd barn y cyfranogwyr ynglŷn â chymryd camau i warchod ac adfer natur. Mae’r bennod hon yn nodi’r effaith a gafodd cymryd rhan yng Nghynulliad y Dinasyddion ar y cyfranogwyr, a pha gamau maent wedi’u cymryd neu’n bwriadu eu cymryd i helpu i warchod ac adfer natur ar ôl i’r Cynulliad ddod i ben.

## 3.1 Cynulliad y Dinasyddion – y profiad a’r effaith

Mae’r ymatebion a gafwyd i’r arolwg yn awgrymu bod Cynulliad y Dinasyddion wedi bod yn brofiad cadarnhaol i bron pob un o’r cyfranogwyr a gymerodd ran yn y gweithdai ychwanegol hyn. Yn wir, bu’n brofiad eithaf dymunol neu ddymunol iawn i’r mwyafrif ohonynt (gweler ffigur 2).





**Ffigur 2:** Pa mor ddymunol fu Cynulliad y dinasyddion.

Pan ofynnwyd yn yr arolwg beth oedd canlyniad mwyaf gwerthfawr y Cynulliad, dywedodd llawer o’r cyfranogwyr eu bod wedi cael eu hysbrydoli i weithredu. Trwy weld â’u llygaid eu hunain sut mae llawer o bobl yn gofalu am natur, a thrwy weld pa gamau ymarferol (bach a mawr) y mae pobl yn eu cymryd neu’n bwriadu eu cymryd, cafodd y cyfranogwyr eu hysbrydoli i wneud rhywbeth eu hunain. Roedd y camau a grybwyllwyd yn cynnwys ymddiddori mewn materion yn ymwneud â natur, ailgylchu mwy neu greu man yn yr ardd ar gyfer gwahanol fathau o adar. Yn ôl un cyfranogwr, roedd y ffaith ei fod wedi cael

dweud ei ddweud mewn lleoliad swyddogol wedi newid ei safbwynt ynglŷn â’r mater, yn hytrach na theimlo ei fod yn “wynebu wal frics wrth geisio byw mewn ffordd wyrddach”.

Yn ogystal â chael eu hysbrydoli i weithredu, fe wnaeth y mwyafrif o’r cyfranogwyr ennill gwybodaeth yn sgil y Cynulliad hefyd, a dywedodd pob un ohonynt, ac eithrio un, eu bod yn eithaf gwybodus neu’n wybodus iawn ynglŷn â chyflwr natur yng Nghymru ar ôl y Cynulliad (gweler ffigur 3). Gwelwyd tuedd tebyg iawn pan ofynnwyd yr un cwestiwn i aelodau’r Cynulliad ar ôl sesiwn gyntaf y Cynulliad, a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2023. Yr adeg honno, ymatebodd 21 o’r cyfranogwyr ac roedd y gyfran a ddywedodd eu bod yn eithaf gwybodus neu’n wybodus iawn fwy neu lai yr un fath.

Dengys yr ymatebion testun agored yn yr arolwg fod pobl o’r farn eu bod yn fwy gwybodus trwy gael ffeithiau ynglŷn â difrifoldeb y materion, a hefyd trwy ddysgu am gynlluniau Llywodraeth Cymru, “y darlun mawr o’r hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud”.




**Ffigur 3:** Pa mor wybodus yw’r cyfranogwyr ar ôl cynnal gweithdai Cynulliad y Dinasyddion.

Ymhellach, yn yr atebion testun agored soniwyd dro ar ôl tro am werth Cynulliad y Dinasyddion o ran helpu’r cyfranogwyr i ddeall safbwyntiau pobl eraill. Y farn oedd bod “trafod syniadau o wahanol gefndiroedd yn blwmp ac yn blaen” heb unrhyw “wleidydda” yn rhywbeth i’w groesawu yn hytrach na “chyfryngau sydd, yn aml, yn unochrog iawn”.


Awgrymodd sylwadau rhai cyfranogwyr fod yr wybodaeth ychwanegol a gawsant wedi eu grymuso, ac yn ôl un ymatebydd, er enghraifft, "rydw i'n teimlo bod gen i fwy o rym i herio nawr, e.e. herio AS lleol ynglŷn â'r hyn sydd wedi digwydd, mae gen i fwy o wybodaeth gefndir i herio a chrybwyll pethau sydd o'u lle", a dywedodd ymatebydd arall ei fod yn teimlo'n "fwy hyderus i fynegi fy marn gerbron eraill ynglŷn â'r newidiadau angenrheidiol".

Yn ystod y trafodaethau dilynol, mynegodd llawer o'r cyfranogwyr ddymuniad i barhau i gymryd rhan yng ngwaith CNC i warchod ac adfer natur. Pan ofynnwyd pa gymorth mae pobl ei angen er mwyn parhau i gymryd rhan, gwelwyd mai gwybodaeth oedd y prif beth (trafodir hyn yn fanylach yn adran 3.3 isod). Hefyd, roedd cysylltu ag aelodau eraill y Cynulliad (yn enwedig y rhai a oedd yn byw gerllaw) a phobl eraill sy'n dymuno eirioli dros natur yng Nghymru yn ffynhonnell gymorth arall y soniwyd amdani, gan fod cysylltiadau o'r fath yn ysgogi pobl ac yn gwneud iddynt deimlo'n fwy abl i weithredu. Yn olaf, dywedwyd bod enghreifftiau o gamau cadarnhaol a gymerir gan ddinasyddion eraill yng Nghymru i warchod ac adfer natur yn ddefnyddiol o ran ysbrydoli pobl i weithredu. Gweler Atodiad 3 i gael rhestr lawn o'r anghenion cymorth y soniwyd amdanynt.

Er bod rhai cyfranogwyr wedi sôn am y trafodaethau plaen a gafwyd rhwng pobl o wahanol gefndiroedd yn ystod Cynulliad y Dinasyddion, yn nau o'r grwpiau trafod dilynol gofynnodd y cyfranogwyr a oedd fformat Cynulliad y Dinasyddion yn ddigonol i ddwyn ynghyd gymysgedd eang o bobl o gefndiroedd gwahanol, a chanddynt safbwyntiau gwahanol. Roedd un cyfranogwr "braidd yn amheus o'r broses", gan awgrymu "bod y grŵp yn hunan-ddetholus: Rydych yn gofyn i bobl ddod ynghyd i siarad am yr amgylchedd, ac yn y pen draw rydych yn clywed pobl yn dweud eu bod eisiau rhagor o fannau gwyrdd – dyw hynny ddim yn annisgwyl iawn". Wrth gwrs, roedd y broses recriwtio a ddefnyddiwyd gan Sefydliad Sortition wedi'i chynllunio er mewn cael hapsampl yn hytrach na sampl hunan-ddetholus; felly, er nad yw'r farn hon yn adlewyrchu'r ffeithiau hynny, mae'n ddiddorol nodi beth yw rhagdybiaethau rhai pobl ynglŷn â'r broses.

## 3.2 Gweithredu i warchod ac adfer yr amgylchedd naturiol

Dywedodd bron pob un o'r cyfranogwyr y byddent yn fodlon newid eu ffordd o fyw er mwyn helpu i greu dyfodol lle gallai cymdeithas a natur ffynnu (ffigur 4). Pan drafodwyd enghreifftiau o'r modd y byddent yn newid eu ffordd o fyw, rhoddwyd lle blaenllaw i ailgylchu a defnyddio llai o ynni (e.e. peidio â gwefru dyfeisiau dros nos, gyrru'n arafach neu ddefnyddio llai ar y car) – gwelwyd hyn yn ymatebion testun agored yr arolwg a hefyd yn y grwpiau trafod. Ymhellach, rhoddwyd lle blaenllaw i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth wrth brynu pethau. Er enghraifft, osgoi eitemau plastig a glaswellt ffug "oherwydd rydw i'n sylweddoli nawr faint o lygredd a gaiff ei greu ganddynt", "siopa'n lleol am fân eitemau" neu "ddefnyddio siopau lleol diwastraff". Hefyd, soniwyd dro ar ôl tro am gymryd camau bach i greu mannau lle gall natur ffynnu – roedd hyn yn cynnwys pethau fel "hau mwy o hadau blodau gwyllt" neu ymuno â grŵp garddio lleol.





**Ffigur 4**: Pa mor barod yw'r cyfranogwyr i newid eu ffordd o fyw ar ôl mynychu gweithdai Cynulliad y Dinasyddion.

Pan ofynnwyd pa gamau y gallai'r cyfranogwyr eu cymryd yn ystod y misoedd nesaf er mwyn cyflwyno newidiadau ecogyfeillgar i'w ffordd o fyw, rhoddwyd lle blaenllaw i dreulio amser ym myd natur, mynychu gweithdai fel Cynulliad y Dinasyddion, a gwella'u gwybodaeth (ffigur 5). Awgryma hyn fod y cyfranogwyr o'r farn y gallant gymryd amrywiaeth o gamau gwahanol.


Yn y trafodaethau grŵp, dywedodd llawer o'r cyfranogwyr eu bod hefyd wedi mynd ati i godi ymwybyddiaeth ymhlith eu teuluoedd a'u cyfeillion. Ar ôl cymryd rhan yn y Cynulliad, roeddynt o'r farn eu bod "wedi cael sgyrsiau mwy gwybodus gyda phobl eraill", aelodau o'u teulu, cyfeillion a chydweithwyr ynglŷn â chyflwr natur.

Hefyd, trafodwyd gwirfoddoli'n fanwl yn y grwpiau trafod. Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod gwirfoddoli yn ffordd allweddol o "ddeall mwy am natur a'r camau cadarnhaol y gellir eu cymryd". Gan ddibynnu ar amgylchiadau pobl, gwelwyd bod hyn yn cynnwys ymuno â sefydliadau sy'n gofalu am natur, cymryd rhan mewn digwyddiadau casglu sbwriel, gofalu'n rheolaidd am fannau gwyrdd lleol a dysgu sgiliau awyr agored fel rhan o grŵp cefnogol. Soniodd rhai am ymgyrchu a gwaith allgymorth, megis plannu coed a blodau gyda phlant mewn ysgolion, monitro poblogaethau adar fel rhan o grŵp bywyd gwyllt, neu gyfrannu at arolygon thermol a gynhelir gan Gyfeillion y Ddaear.




**Ffigur 5**: Gallu a adroddwyd gan y cyfranogwyr ynghylch cymryd camau.

Fodd bynnag, roedd llawer o'r cyfranogwyr yn wynebu rhwystrau a fyddai'n eu hatal rhag cymryd camau. Awgryma'r ymatebion a gafwyd i'r arolwg mai rhesymau ariannol a diffyg amser (ffigur 6) yw'r prif rwystrau sy'n eu hatal rhag newid eu ffordd o fyw, ynghyd â diffyg gwybodaeth. Hefyd, soniodd rhai cyfranogwyr am hygyrchedd cyfyngedig a diffyg awydd i gymryd camau ar eu pen eu hunain.




**Ffigur 6:** Rhwystrau sy'n atal y cyfranogwyr rhag cymryd camau i helpu i greu dyfodol lle gall cymdeithas a natur ffynnu gyda'i gilydd.

Pan drafodwyd y rhwystrau'n fwy trylwyr yn y grwpiau trafod, soniodd y cyfranogwyr yn fanylach am heriau ariannol, gan ddweud bod defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, fel trenau, yn gallu bod yn ddrytach na gyrru.

Wrth drafod dewisiadau ynni, roedd cyfranogwyr un grŵp yn ansicr beth oedd cost opsiynau ynni gwyrdd ar gyfer y cartref, ac nid oeddynt ychwaith yn siŵr pa mor ymarferol oedd yr opsiynau hynny – pethau fel gosod pympiau gwres neu ffynonellau ynni adnewyddadwy megis paneli solar.

Hefyd, roedd rhai o'r farn bod yr opsiynau ailgylchu cyfredol yn rhwystr. Roedd y cyfranogwyr o'r farn y byddai'n rhaid mynnu mwy gan fusnesau er mwyn gallu lleihau deunyddiau pacio yn y lle cyntaf a chefnogi ailgylchu (e.e. trwy ddefnyddio cynlluniau dychwelyd).

Wrth drafod y syniad o dreulio rhagor o amser ym myd natur, dywedodd y cyfranogwyr fod gwybod ble i fynd a sut i gyrraedd yno yn rhwystr arall. Er bod rhai wedi "cael eu hysbrydoli i fynd i ragor o leoedd" a'u bod eisiau "ymgolli mwy ym myd natur", dywedodd eraill eu bod yn ansicr ble i fynd a bod yna brinder trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer teithio i fannau o'r fath.

Wrth drafod y syniad o wirfoddoli'n rheolaidd, dywedwyd mai'r rhwystrau allweddol oedd diffyg ymwybyddiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli lleol, diffyg amser, y ffaith bod gweithgareddau gwirfoddoli'n cael eu cynnal ar adegau anghyfleus, diffyg cyfleoedd cynhwysol a hygyrch, a diffyg arian. Gellid datrys y problemau hyn i ryw raddau trwy sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn ddidrafferth a thrwy gynorthwyo gweithredu cymunedol. Un awgrym penodol oedd y dylai ychwaneg o gyflogwyr yng Nghymru hyrwyddo a chefnogi gwirfoddoli.

## 3.3 Angen allweddol am wybodaeth

Fel y nodir yn adran 3.1, yn ôl y cyfranogwyr un o'r prif fanteision a ddeilliodd o gymryd rhan yn y Cynulliad oedd teimlo eu bod wedi ennill rhagor o wybodaeth. Yn y trafodaethau grŵp, pwysleisiodd y cyfranogwyr y gallai diffyg gwybodaeth rwystro pobl eraill yng Nghymru rhag 'cymryd camau i helpu i greu dyfodol lle gall cymdeithas a natur ffynnu gyda'i gilydd'.

Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr yn cytuno bod gwybodaeth ac ymwybyddiaeth "bod yr hyn rydw i'n ei wneud yn bwysig" yn allweddol er mwyn creu ymdeimlad o gyfrifoldeb. Dywedwyd ei bod hi'n ofynnol cael gwahanol fathau o wybodaeth er mwyn galluogi pobl i wneud eu rhan a helpu natur i ffynnu yng Nghymru, yn cynnwys:

- **Diweddariadau rheolaidd ynglŷn â'r camau a gymerir gan y llywodraeth** a gwybodaeth a fyddai'n galluogi pobl i ddeall sut mae'r camau a gymerir yn gwneud gwahaniaeth.
- **Gwybodaeth ffeithiol a all wneud pobl yn fwy ymwybodol o'r heriau pwysig sy'n wynebu cyflwr natur**. Er enghraifft, problemau'n ymwneud â charthion mewn afonydd ac yn y môr, neu faterion ecolegol taer (e.e. rhywogaethau mewn perygl), yn cynnwys cyfaddawdau cysylltiedig rhwng natur ac amcanion eraill yn ymwneud â pholisïau a'r economi.
- **Gwybodaeth ymarferol am y camau y gall pobl eu cymryd**, yn cynnwys camau penodol a syml fel ailgylchu neu leihau llygredd microblastigau, a chamau mwy cymhleth fel sut gellir mabwysiadu technolegau gwyrdd mewn gwahanol amgylchiadau (e.e. systemau gwresogi newydd mewn hen adeiladau).
- **Gwybodaeth leol ynglŷn â sut i gymryd rhan mewn gweithredu yn eu hardal leol**, er enghraifft "sut i roi prosiectau cymunedol ar waith", a hysbysebu cyfleoedd i gymryd rhan.

Roedd y cyfranogwyr o'r farn ei bod hi'n bwysig cyfleu'r wybodaeth hon i bawb, hyd yn oed i'r bobl hynny nad ydynt yn mynd ati'n benodol i chwilio amdani.

# 4. Casgliad

Yn ystod y trafodaethau hyn, cadarnhaodd 19 aelod o Gynulliad y Dinasyddion fod y chwe datganiad gweledigaeth a luniwyd gan NatCen yn adlewyrchu'n gywir y blaenoriaethau a bennwyd gan y rhai a gymerodd ran yn y Cynulliad Dinasyddion gwreiddiol.

Cyflwynodd NatCen fân newidiadau yng ngeiriad tri o'r datganiadau yn dilyn adborth a gafwyd yn ystod y grwpiau trafod. Tynnir sylw at y newidiadau hyn yn yr adroddiad. Fe'u cyflwynwyd er mwyn sicrhau bod modd cyfathrebu ystyr y datganiadau'n glir i'r cyhoedd ehangach. Nid yw'r diwygiadau'n arwydd bod y cyfranogwyr yn anghytuno â'r datganiadau.

Cadarnhaodd y grwpiau trafod y bydd hi'n hanfodol cyfathrebu canlyniadau'r Cynulliad yn eang ac yn effeithiol er mwyn helpu i roi'r weledigaeth ar waith. Fe fydd hi'n bwysig cyflwyno digon o fanylion ymarferol a rhoi gwybod i bobl Cymru pa gamau a allai fod yn angenrheidiol i weithredu'r datganiadau.

Yn achos y rhai a gymerodd ran yn y trafodaethau dilynol, fe wnaeth bron pob un ohonynt dynnu sylw at yr effaith a ddaeth i'w rhan yn sgil cyfranogi yng Nghynulliad y Dinasyddion, yn enwedig o ran gwella'u gwybodaeth am yr heriau sy'n wynebu natur a'u parodrwydd i gymryd camau i warchod ac adfer natur. Fodd bynnag, nodwyd bod amser ac arian yn rhwystrau allweddol a allai eu hatal rhag cymryd camau yn y dyfodol.

Roedd mynediad at wybodaeth yn thema gyffredin drwy gydol y trafodaethau. Yn ein dadansoddiad o drafodaethau'r cyfranogwyr, gwelwyd y gall pedwar math o wybodaeth helpu i godi ymwybyddiaeth o gamau y gellir eu cymryd i warchod ac adfer natur yng Nghymru, sef: diweddariadau gan y llywodraeth, ffeithiau ynglŷn â chyflwr natur, y camau ymarferol y gall pobl eu cymryd a chyfleoedd lleol i gymryd rhan.

# Atodiad 1: Y Sampl

Mae'r tabl isod yn dangos manylion demograffig yr 19 unigolyn a gymerodd ran yn y grwpiau trafod ar-lein o gymharu â sampl targed y Cynulliad gwreiddiol, a'r rhai a fynychodd sesiwn gyntaf y Cynulliad.

| | Poblogaeth % | Targed gwreiddiol | | Gwahoddwyd | Sesiwn 1 | Trafodaeth ar-lein |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhywedd** | | | | | | |
| Dynion | 49.30% | 26 | 50.00% | 25 | 23 | 11 |
| Menywod | 50.70% | 26 | 50.00% | 27 | 22 | 8 |
| **Ethnigrwydd** | | | | | | |
| Gwyn, Gwyn Cymreig neu Wyn Prydeinig | 93.70% | 45 | 86.50% | 44 | 40 | 16 |
| Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig | 2.90% | 3 | 5.80% | 3 | 2 | 2 |
| Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 0.90% | 1 | 1.90% | 2 | 1 | 0 |
| Cymysg neu grwpiau aml-ethnig | 1.60% | 2 | 3.80% | 2 | 1 | 1 |
| Grŵp ethnig arall | 0.90% | 1 | 1.90% | 1 | 1 | 0 |
| **Oedran** | | | | | | |
| 16-24 | 13.07% | 7 | 13.10% | 6 | 4 | 1 |
| 25-34 | 15.30% | 8 | 15.30% | 8 | 7 | 3 |
| 35-44 | 15.00% | 8 | 15.00% | 8 | 8 | 4 |
| 45-64 | 31.35% | 16 | 31.40% | 16 | 15 | 7 |
| 65+ | 25.28% | 13 | 25.30% | 14 | 11 | 4 |
| **Anabledd** | | | | | | |
| Oes | 22.70% | 12 | 22.70% | 11 | 8 | 4 |
| Nac oes | 77.30% | 40 | 77.30% | 41 | 37 | 15 |
| **Daearyddiaeth** | | | | | | |
| Gwledig | 38.00% | 20 | 38.00% | 19 | 16 | 8 |
| Trefol | 62.00% | 32 | 62.00% | 33 | 28 | 11 |
| **Galwedigaeth** | | | | | | |
| Heb fod yn rhan o'r llafurlu (arall) | 17.00% | 9 | 17.00% | 9 | 6 | 5 |
| Rheolwr / cyfarwyddwr / proffesiynol | 26.00% | 14 | 26.00% | 14 | 13 | 6 |
| Gofalu / hamdden / gwasanaethu / gwerthu | 9.60% | 5 | 9.60% | 9 | 8 | 3 |
| Heb fod yn rhan o'r llafurlu (wedi ymddeol) | 25.90% | 13 | 25.90% | 13 | 10 | 4 |
| Gweinyddol / ysgrifenyddol / crefft fedrus | 11.70% | 6 | 11.70% | 6 | 7 | 1 |
| Gweithiwr cyfarpar neu beiriannau / elfennol | 9.80% | 5 | 9.80% | 1 | 1 | 0 |
| **Daearyddiaeth** | | | | | | |
| LL/CH | 34% | 18 | 34.0% | 17 | 15 | 6 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SY | 6% | 3 | 6.0% | 4 | 4 | 3 |
| LD/HR | 6% | 3 | 6.0% | 3 | 3 | 1 |
| SA | 18% | 9 | 18.0% | 8 | 8 | 1 |
| CF | 24% | 12 | 24.0% | 13 | 11 | 6 |
| NP/GL | 12% | 6 | 12.0% | 7 | 4 | 2 |

# Atodiad 2: Yr Arolwg

Llenwodd y cyfranogwyr yr arolwg canlynol cyn cymryd rhan yn y trafodaethau grŵp.

Bydd y cwestiynau canlynol yn ein helpu i ddeall rhywfaint am y modd yr effeithiodd y broses o gymryd rhan yn y Cynulliad ar eich agwedd tuag at natur a'r camau y gallech eu cymryd er mwyn helpu i greu dyfodol lle gall cymdeithas a natur ffynnu gyda'i gilydd.

**Cwestiwn 1**: Yn gyffredinol, beth fu'r peth mwyaf gwerthfawr a ddeilliodd o'r gweithdai?

| |
|---|
| |

………………………………………………………………………………………………

***Teitl y tab: Cwestiwn 2***

**Cwestiwn 2**: I ba raddau y gwnaethoch chi fwynhau sesiynau Cynulliad y Dinasyddion?

☐ Yn fawr iawn

☐ Eithaf pleserus

☐ Yn y canol

☐ Eithaf amhleserus

☐ Ddim o gwbl

………………………………………………………………………………………………

***Teitl y tab: Cwestiwn 3a***

**Cwestiwn 3a**: Ar ôl cymryd rhan yn y gweithdai, yn eich tyb chi pa mor wybodus ydych chi ynglŷn â chyflwr byd natur yng Nghymru a'i gysylltiad â phobl a'u llesiant?

☐ Gwybodus iawn

☐ Eithaf gwybodus

☐ Ddim yn wybodus iawn

☐ Ddim yn wybodus o gwbl

☐ Ddim yn gwybod

…………………………………………………………………………………………

***Teitl y tab: Cwestiwn 3b***

**Cwestiwn 3b**: Pa wybodaeth arall yr hoffech chi ei chael i'ch helpu i ddatblygu eich barn ynglŷn â'r cysylltiadau rhwng natur a phobl yng Nghymru?

| |
|---|
| |

…………………………………………………………………………………………

***Teitl y tab: Cwestiwn 4***

**Cwestiwn 4**: Ers cwblhau'r gweithdai, beth (os unrhyw beth o gwbl) sydd wedi newid o ran eich syniadau ynglŷn â chyflwr byd natur yng Nghymru a'i gysylltiad â phobl a'u llesiant?

| |
|---|
| |

…………………………………………………………………………………………

***Teitl y tab: Cwestiwn 5***

**Cwestiwn 5a**: Ar ôl cymryd rhan yn y gweithdy, pa mor barod neu amharod ydych chi i gyflwyno newidiadau i'ch ffordd o fyw er mwyn helpu i greu dyfodol lle gall cymdeithas a natur ffynnu?

☐ Parod iawn

☐ Eithaf parod

☐ Ddim yn arbennig o barod

☐ Ddim yn barod o gwbl

……………………………………………………………………………………

***Teitl y tab: Cwestiwn 5b***

**Cwestiwn 5b**: Beth fyddai'n eich cynorthwyo i gyflwyno newidiadau i'ch bywyd?

……………………………………………………………………………………

***Teitl y tab: Cwestiwn 6***

**Cwestiwn 6**: Ar ôl cymryd rhan yn y gweithdy, a ydych chi wedi cymryd unrhyw gamau i helpu i greu dyfodol lle gall cymdeithas a natur ffynnu gyda'i gilydd?

……………………………………………………………………………………

***Teitl y tab: Cwestiwn 7***

**Cwestiwn 7a**: Gan feddwl am yr ychydig fisoedd nesaf, pa gamau o blith y canlynol y credwch **y bydd modd ichi eu cymryd** er mwyn helpu i greu dyfodol lle gall cymdeithas a natur ffynnu gyda'i gilydd?

*(dewiswch yr holl rai perthnasol)*

☐ Gwirfoddoli ar gyfer mentrau lleol

☐ Mynychu gweithdai fel Cynulliad y Dinasyddion

☐ Cyflwyno newidiadau amgylcheddol i'ch ffordd o fyw

☐ Gwella eich gwybodaeth am faterion sy'n effeithio ar natur

☐ Treulio rhagor o amser ym myd natur

☐ Nid wyf yn credu y gallaf gymryd unrhyw gamau

☐ Arall

………………………………………………………………………………………

***Teitl y tab: Cwestiwn 7b***

**Cwestiwn 7b**: Nodwch ragor o fanylion am y camau y bwriadwch eu cymryd.

| |
|---|
| |

………………………………………………………………………………………

***Teitl y tab: Cwestiwn 7c***

**Cwestiwn 7c**: Os mai 'Arall' yw eich ateb, nodwch eich dewisiadau isod.

*Os na wnaethoch ddewis 'Arall', ewch i'r dudalen nesaf.*

| |
|---|
| |

………………………………………………………………………………………

***Teitl y tab: Cwestiwn 8a***

Bydd y cwestiynau canlynol yn ein helpu i ddeall yr heriau a allai eich wynebu o ran cymryd y camau angenrheidiol i helpu i greu dyfodol lle gall cymdeithas a natur ffynnu gyda'i gilydd.

**Cwestiwn 8a**: Mae yna lawer o bethau a all rwystro pobl rhag cymryd camau. Pa heriau o blith y canlynol a allai eich rhwystro chi rhag cymryd camau i helpu i greu dyfodol lle gall cymdeithas a natur ffynnu gyda'i gilydd?

*(Dewiswch yr holl rai perthnasol)*

☐ Rhesymau ariannol

☐ Diffyg amser

☐ Dim digon o wybodaeth

☐ Hygyrchedd

☐ Nid wyf eisiau cymryd camau ar fy mhen fy hun

☐ Nid yw hyn yn flaenoriaeth imi

☐ Dim un o’r uchod

☐ Arall

………………………………………………………………………………………………

***Teitl y tab: Cwestiwn 8b***

**Cwestiwn 8b**: Ac yn eich tyb chi, pa un o’r heriau hyn yw’r **her fwyaf i chi’n bersonol?**

☐ Rhesymau ariannol

☐ Diffyg amser

☐ Dim digon o wybodaeth

☐ Hygyrchedd

☐ Nid wyf eisiau cymryd camau ar fy mhen fy hun

☐ Nid yw hyn yn flaenoriaeth imi

☐ Dim un o’r uchod

☐ Arall

………………………………………………………………………………………………

***Teitl y tab: Cwestiwn 8c***

**Cwestiwn 8c**: Yn y blwch tesun, eglurwch pam.

Neu os ydych chi wedi dewis ‘Arall’, esboniwch isod.

| |
|---|
| |

………………………………………………………………………………………

***Teitl y tab: Cwestiwn 8d***

**Cwestiwn 8d**: Os oes gennych ragor o syniadau neu fyfyrdodau ynglŷn â’r heriau sy’n eich wynebu o ran cymryd camau i helpu i warchod a gwella cyflwr natur yng Nghymru, nodwch nhw yn y blwch testun isod.

*Os nad oes gennych ragor o sylwadau, ewch ymlaen i’r cwestiwn nesaf.*

| |
|---|
| |

………………………………………………………………………………………

***Teitl y tab: Cwestiwn 9a***

Ar ôl gweithdai’r Cynulliad, aeth y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) ati i adolygu trafodaethau’r cyfranogwyr a llunio chwe datganiad gweledigaeth. Nod y datganiadau gweledigaeth hyn yw crynhoi blaenoriaethau’r cyfranogwyr ynglŷn â dyfodol lle gall pobl a natur ffynnu gyda’i gilydd yng Nghymru.

Yn adran nesaf yr arolwg, hoffem ichi fwrw golwg dros y datganiadau hyn a nodi a ydych o’r farn eu bod yn cyfleu’r hyn a glywsoch yng ngweithdai Cynulliad y Dinasyddion. **Mae’n bwysig ichi ddarllen y datganiadau hyn, oherwydd byddwch yn eu trafod ymhellach yn ystod y trafodaethau grŵp.**

*Cliciwch ar nesaf i ddarllen y datganiadau gweledigaeth*

1. **Bydd pobl a’r llywodraeth yn ymrwymo ar y cyd i warchod yr amgylchedd naturiol.**

*Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i'r llywodraeth gyfathrebu ei chynllun i warchod ac adfer yr amgylchedd naturiol. Bydd hwn yn egluro sut y gall pobl a'r llywodraeth helpu i amddiffyn anifeiliaid a phlanhigion sydd mewn perygl ac adfer ble maent yn byw.*

2. **Bydd arweinyddiad clir gan Lywodraeth Cymru yn helpu'r cyhoedd i gymryd mwy o ran mewn penderfyniadau am natur.**

   *Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i bob lefel o lywodraeth gynnwys pobl a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a thystiolaeth glir yn hytrach na buddiannau pleidiau gwleidyddol. Bydd hyn yn rhoi mwy o rym i'r cyhoedd ac yn sicrhau bod y llywodraeth yn mabwysiadu'r ymagwedd orau at natur.*

3. **Bydd rhannu gwybodaeth yn helpu pobl i ddeall sut mae natur yn effeithio ar eu bywydau, a'r camau y gallant eu cymryd i helpu i ddiogelu ac adfer yr amgylchedd naturiol.**

   *Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, bydd gwybodaeth glir a hygyrch yn amlygu'r gwahanol ffyrdd y gall dinasyddion ymateb. Bydd hyn yn helpu dinasyddion i wybod pa gamau y gallant eu cymryd i helpu natur a chymdeithas i ffynnu.*

4. **Bydd mynediad eang i fyd natur yn helpu pobl ledled Cymru i fyw bywydau hapus ac iach.**

   *Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i gymdeithas Cymru fod yn fwy cyfartal ac mae angen gwneud ei hamgylchedd yn llai llygredig fel bod pawb yn gallu elwa ar fyd natur. Bydd hyn yn gwella iechyd meddwl a chorfforol pobl yng Nghymru.*

5. **Bydd opsiynau gwyrddach ar gyfer trafnidiaeth ac ynni yn galluogi mwy o bobl i wneud dewisiadau ecogyfeillgar yn eu bywydau bob dydd.**

   *Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus, technolegau ynni adnewyddadwy a rheoli gwastraff yn ogystal â lleihau effaith anghydraddoldebau rhwng pobl a'u cymunedau. Bydd hyn yn rhoi mynediad mwy cyfartal i ddewisiadau ffordd o fyw gwyrddach i bobl ledled Cymru.*

6. **Bydd rheoli tir yn gynaliadwy yn helpu cymunedau i brynu bwyd lleol a theimlo eu bod yn perthyn i dir Cymru.**

   *Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae angen i bob lefel o lywodraeth helpu i wneud ffermio'n fwy cynaliadwy a bwyd lleol yn rhatach. Bydd hyn yn helpu pobl i brynu mwy o fwyd lleol a chynaliadwy ac adfer byd natur.*

…………………………………………………………………………………………

***Teitl y tab: Cwestiwn 9a***

***Cwestiwn 9a***: Gan eich bod wedi darllen y chwe datganiad erbyn hyn, i ba raddau ydych chi'n **cytuno neu'n anghytuno bod y datganiadau'n cyfleu'r blaenoriaethau a drafodwyd gennych chi a'ch cyd-ddinasyddion yn ystod y gweithdai?**

☐ Cytuno'n gryf

☐ Cytuno i ryw raddau

☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

☐ Anghytuno i ryw raddau

☐ Anghytuno'n gryf

…………………………………………………………………………………………

***Teitl y tab: Cwestiwn 9b***

*(Os dewisodd y cyfranogwyr unrhyw beth ac eithrio 'Cytuno'n gryf' ar gyfer unrhyw un neu bob un o'r datganiadau gweledigaeth, byddant yn cael eu harwain at y cwestiwn hwn, 9c).*

**Cwestiwn 9b: Yn eich tyb chi, beth (os unrhyw beth o gwbl) sydd ar goll neu sydd angen ei newid ynglŷn â'r datganiadau gweledigaeth hyn?**

| |
|---|
| |

…………………………………………………………………………………………

***Teitl y tab: Cwestiwn 9c***

**Cwestiwn 9c**: Os oes gennych ragor o syniadau neu sylwadau ynglŷn â'r datganiadau gweledigaeth, nodwch nhw yn y blwch testun isod.

*Fel arall, ewch ymlaen i'r cwestiwn nesaf.*

| |
|---|
| |

……………………………………………………………………………………………

**Diwedd y dudalen**

Diolch am lenwi'r arolwg. Edrychwn ymlaen at eich gweld yn y gweithdy. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, cysylltwch â: natureandus@natcen.ac.uk.

# Atodiad 3: Anghenion cymorth a nodwyd gan y cyfranogwyr

Isod, ceir rhestr o'r anghenion cymorth a nodwyd gan y rhai a gymerodd ran yn y trafodaethau grŵp a hefyd y rhai a nodwyd yn ymatebion testun rhydd yr arolwg.

- Cysylltu pobl:
  - gallu parhau i gadw mewn cysylltiad ag aelodau eraill y Cynulliad (yn enwedig y rhai a oedd yn byw gerllaw),
  - cysylltu ag eraill yn lleol er mwyn i'r naill allu cynorthwyo'r llall i ddod o hyd i wybodaeth (e.e. trwy gyfrwng "fforymau ardal"),
  - cysylltu â phobl eraill sy'n dymuno eirioli dros natur yng Nghymru,
- Gwybodaeth ymarferol:
  - gwybodaeth am brosiectau lleol a chyfleoedd i wirfoddoli,
  - gwybodaeth am sut i roi prosiectau cymunedol ar waith,
  - rhagor o wybodaeth am y camau ymarferol y gall unigolion eu cymryd (e.e. sut i geisio lleihau'r arfer o lygru dŵr gyda microblastigau) a'r hyn a fyddai'n esgor ar yr effaith fwyaf,
  - rhagor o wybodaeth am gysylltiadau perthnasol "i drafod syniadau ynglŷn â natur a'r amgylchedd",
- Gwybodaeth gefndir a dealltwriaeth:
  - darparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â materion/problemau (e.e. carthion, rhywogaethau mewn perygl)
  - arlwy addysgol (a gynigir mewn ysgolion a hefyd i'r cyhoedd ehangach, yn cynnwys adnoddau ar-lein) fel y gellir parhau i ddysgu am natur
  - rhagor o wybodaeth am ddatblygiadau perthnasol mewn polisïau
- Gwybodaeth am y gwahaniaeth a gaiff ei wneud:
  - enghreifftiau o'r camau cadarnhaol a gymerir gan ddinasyddion Cymru i warchod ac adfer natur,
  - gwybodaeth am "y modd mae pethau'n dod yn eu blaen" (e.e. gwefan bwrpasol lle ceir yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd mentrau a roddwyd ar waith) a "storïau amgylcheddol cadarnhaol",
  - gwybodaeth am y goblygiadau ehangach sy'n perthyn i wahanol ddewisiadau (e.e. effaith economaidd gwahanol fesurau).